Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2

Parthau Diogelu Mwynau

Canllawiau Cynllunio Atodol

Dyddiad yr Ymgynghoriad: 15fed Medi 2021

Dyddiad Mabwysiadu: 26ain Hydref 2022

Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd / This item is also available in English

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Cefndir a Chyd-destun 3
3. Cyd-destun Polisi 4
4. Cysylltiadau Defnyddiol 8

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllawiau cynllunio atodol hyn yn rhoi gwybodaeth i helpu gyda cheisiadau cynllunio ar ardaloedd diogelu mwynau yn y Parc Cenedlaethol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol, ond yn gallu darparu manylion ychwanegol ynglŷn â sut mae polisïau'r Cynllun yn cael eu gweithredu

1.2 Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu diweddaru ar ôl cyhoeddi dogfen newydd Arolwg Daearegol Prydain: Aggregate Safeguarding Maps of Wales. Cyd-ariannwyd y mapiau hyn gan Lywodraeth Cymru ac Arolwg Daearegol Prydain, ac fe'u cynhyrchwyd i helpu Awdurdodau Cynllunio Mwynau i ddarlunio ardaloedd diogelu agregiadau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Dangosir hyd a lled y m,eysydd diogelu mwynau ar Fap Cynigion Cynllun Datblygu Lleol 2, a gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod drwy'r mapiau cynnig rhyngweithiol.

2. Cefndir a Chyd-destun

2.1 Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am ddiogelu mwynau rhag cael eu sterileiddio'n ddiangen gan ddatblygiadau parhaus. Mewn rhai achosion, mae echdynnu'r mwynhau cyn y datblygiad yn gallu caniatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen. Mewn achosion eraill, dylid chwilio am safle arall ar gyfer y datblygiad.

2.2 Mae'r canllawiau hyn yn gosod y materion sydd angen sylw pan fydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar barthau diogelu mwynau. Mae'r siart llif atodol yn nodi'r broses hon.

3. Cyd-destun Polisi

Polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol 2

Polisi 21	Diogelu Mwynau Bydd adnoddau tywod a graean, calchfaen, tywodfaen,craig igneaidd a llechi yn cael eu diogelu fel y dangosir ar y map cynigion. Fe fydd angen echdynnu mwynau cyn dechrau unrhyw ddatblygiad a fyddai fel arall yn sterileiddio mwynau sydd o bwysigrwydd economaidd ar hyn o bryd, neu sy'n debygol o fod o bwysigrwydd economaidd yn y dyfodol, ar yr amod nad oes unrhyw leoliad addas arall, nac angen sy'n drech nag ystyriaethau eraill am y datblygiad, a bod modd echdynnu: a) heb ragfarnu yn erbyn datblygiad arfaethedig; a b) trwy wneud y gwaith echdynnu o fewn cyfnod rhesymol o amser; ac c) heb unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd.

3.1 Fe fydd angen mynd trwy gyfres o gamau i sefydlu'r angen i'r datblygiad gymryd lle o fewn ardal diogelu mwynau, ac os sefydlir yr angen, a oes modd echdynnu'r mwynau cyn datblygu.

3.2 Mae'r siart llif sy'n atodol i'r canllawiau hyn yn rhoi awgrym o'r broses a'r cwestiynau y dylid eu hateb. Dylai'r nodiadau canlynol helpu gyda hyn. I ddechrau, ble na ddarperir digon o wybodaeth, fe fydd yr Awdurdod yn gofyn am yr wybodaeth angenrheidiol. Cymerir ymagwedd gymesur: fe fydd lefel yr wybodaeth sy'n angenrheidiol yn dibynnu ar fanylion penodol y datblygiad a gynigir. Os na chaiff ei darparu, mae'r cais yn debygol o gael ei wrthod ar y sail nad oes cyfiawnhad priodol drosto.

STERILEIDDIO MWYNAU

A yw'n gais gan berchentywr neu o fewn cwrtil sydd eisoes yn bodoli NEU A yw'n ddatblygiad dros dro?	Ni fydd ceisiadau gan berchentywyr[1] a cheisiadau o fewn cwrtil sydd eisoes yn bodoli, ble mae'r adnodd mwynau eisoes wedi cael ei sterileiddio, yn dod o dan y polisi hwn. Mae datblygiadau parhaol yn gallu sterileiddio mwynau. Ni fydd datblygiadau dros dro, hyd yn oed am sawl blwyddyn, yn sterileiddio mwynau yn barhaol, ac felly maent wedi eu heithrio o'r polisi hwn.
A oes lleoliadau addas arall ar gael tu allan i'r Ardal Diogelu Mwynau?	Dylai cynigion osgoi datblygiadau ar ardaloedd diogelu mwynau. Fe fydd angen i'r rheiny sy'n ceisio am ganiatâd cynllunio ddangos pam mai dyma'r unig leoliad addas ar gyfer y cynnig, a rhaid cyflwyno achos dros leoli'r datblygiad o fewn ardal diogelu mwynau.
A oes yna angen gor-redol am y datblygiad? e.e. - dyrannwyd o fewn y CDLl - angen cymunedol - angen busnes ymarferol - angen am dai fforddiadwy	Os nad oes angen i'r datblygiad gymryd lle ar ardaloedd diogelu mwynau, yna mae'r caniatâd yn debygol o gael ei wrthod. Gellir rhoi caniatâd os oes modd sefydlu angen. Mae'r angen eisoes wedi cael ei sefydlu ar gyfer dyraniadau o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Gellir cyflwyno achosion eraill dros angen hefyd. Mae hyn yn gallu cynnwys anghenion y gymuned, yr angen am dai fforddiadwy, a'r angen i fusnes neu fenter sydd eisoes yn bodoli ymestyn arno i dir cyfagos. Fe fydd angen i'r datblygwr sefydlu'r angen am ddatblygiad newydd, onid yw'r safle wedi ei leoli o fewn y Cynllun Datblygu Lleol.
Mae'n debygol y gwrthodir ceisiadau sy'n methu â dangos bod yn rhaid i'r datblygiad gymryd lle ar y parth diogelu mwynhau. Rhaid i geisiadau sy'n dderbyniol o dan y rhan hon o'r Polisi fynd ymlaen i ystyried a yw'n bosib echdynnu'r adnodd cyn dechrau ar y datblygiad.	

[1] Mae'r rhain yn cynnwys gwaith ac estyniadau ar annedd sydd eisoes yn bodoli

ECHDYNNU YMLAEN LLAW

A fyddai effaith echdynnu cyn datblygu, ar y dirwedd, yn niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol? NEU A oes yna nodweddion hanesyddol cydnabyddedig y mae'n rhaid eu cadw? NEU A oes yna goed neu gloddiau / banciau clawdd y mae'n rhaid eu cadw?	Fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried p'un ai y byddai ystyriaethau amgylcheddol yn gorbwyso'r angen i echdynnu cyn dechrau ar ddatblygiad. Fe fydd cymeriad y dirwedd, nodweddion hanesyddol, ecolegol a bioamrywiaeth yn ystyriaethau. Mae echdynnu ymlaen llaw yn gallu dinistrio'r nodweddion hyn, ac fe fydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng eu cyfraniad at dirwedd y Parc Cenedlaethol, cymeriad y datblygiad newydd a chysylltedd ecolegol er enghraifft. Dylai'r ymgeisydd roi'r holl wybodaeth berthnasol i'r Awdurdod
A yw'r adnodd o fewn clustogfa datblygiad sensitif? NEU Ai tywod a graean yw'r adnodd (neu adnoddau eraill ble nad oes angen ffrwydro) ac a yw o fewn 100 metr i ddatblygiad sensitif sydd eisoes yn bodoli?[2]	Fel arfer, mae calchfaen caled angen cael ei ffrwydro er mwyn ei echdynnu. Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol yn nodi na ddylid ffrwydro o fewn clustogfa o 200m o amgylch datblygiad sensitif sydd eisoes yn bodoli. Ble nad oes angen unrhyw ffrwydro, mae'r glustogfa yn 100m o amgylch datblygiad sensitif sydd eisoes yn bodoli. Fe fydd angen i'r ymgeisydd ddangos nad oes modd echdynnu'r adnodd oherwydd defnydd sensitif sydd eisoes yn bodoli o fewn y glustogfa berthnasol i'r datblygiad arfaethedig a bod yr adnodd mwynau eisoes wedi ei sterileiddio.
A gadarnhawyd y mwyn?	Mae Arolwg Daearegol Prydain yn gallu rhoi cadarnhad bod y mwyn yn bodoli yn y lleoliad hwn[3].
Os cadarnheir y mwyn, fe fydd angen i'r ymgeisydd archwilio cyn echdynnu. Efallai fod yna resymau o hyd pam na ellir echdynnu e.e. fe fydd yr echdynnu yn gohirio'r datblygiad y tu hwnt	Fe fydd angen i'r datblygwr ddangos pam nad yw'n ymarferol echdynnu'r defnydd. Efallai y bydd hyn yn ymwneud ag ymarferoldeb ariannol y cynllun, diffyg marchnad ar gyfer y defnydd neu fanylion technegol fel yr effaith ar y lefel trwythiad neu ddyfrhaenau er enghraifft.

[2] Mae 'datblygiad sensitif' yn unrhyw adeilad y mae pobl yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mae'n cynnwys ardaloedd tai, hostelau, mannau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai ble dylid disgwyl safon amwynder dderbyniol. Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregiadau (2004), paragraff 70

[3] Mae yna dâl masnachol am y gwasanaeth hwn.

i raddfa amser resymol, nid yw'r echdyniad yn ymarferol yn dechnegol, neu efallai nad oes marchnad leol ar gyfer y defnydd.	Efallai y bydd yn bosib addasu'r cynnig i osgoi sterileiddio.
Mae angen cais cynllunio ar wahân i asesu'r broses o weithio'r mwynau	Fe fydd yr Awdurdod yn penderfynu ar gais cynllunio ar gyfer echdynnu'r mwyn cyn datblygu, cyn y gellir dechrau ar ddatblygiad adeiledig parhaol.

4. Cysylltiadau Defnyddiol

Mae gwybodaeth bellach ar gael gan

Cyfeiriad y Parc
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

devplans@pembrokeshirecoast.org.uk

rhif ffôn : 01646 624800

Arolwg Daearegol Prydain,
Prifysgol Caerdydd
Prif Adeilad
Park Place
Caerdydd
CF10 3AT
Rhif Ffôn: 02920 521962
E-bost: bgswales@bgs.ac.uk

Cais Cynllunio o fewn Ardal Diogelu Mwynau

MATERION STERILEIDDIO MWYNAU

A yw'n gais gan berchentywr neu o fewn cwrtil sydd eisoes yn bodoli
NEU
A yw'n ddatblygiad dros dro?

Ydy

Na

A oes lleoliad addas arall ar gael tu allan i'r Ardal Diogelu Mwynau?

Oes

Symudwch y datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr ardal diogelu mwynau.

Na

A oes angen gor-redol am y datblygiad? e.e.
- dyrannwyd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol
- angen cymunedol
- angen busnes ymarferol
- angen am dai fforddiadwy

Na

Os nad oes angen gor-redol am y datblygiad, ac fe fyddai'n arwain at sterileiddiad diangen adnoddau mwynau, gwrthodir caniatâd cynllunio.

Oes

Mae angen cais cynllunio mwynau i sicrhau bod mwynau'n cael eu hechdynnu ymlaen llaw.

CANLYNIADAU CYNLLUNIO

Mae'r siart llif hwn yn ymwneud â materion diogelu mwynau yn unig. Fe fydd unrhyw faterion cynllunio eraill o bwys hefyd yn cael ystyriaeth.

MATERION ECHDYNNU YMLAEN LLAW

A fyddai effaith echdynnu cyn datblygu, ar y dirwedd, yn niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol?
NEU
A oes yna nodweddion hanesyddol a gydnabyddir, sy'n rhaid eu cadw?
NEU
A oes yna goed neu gloddiau / banciau clawdd y mae'n rhaid eu cadw?

Byddai/ Oes

Fe fydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried p'un ai fod yr ystyriaethau amgylcheddol yn gorbwyso'r angen i echdynnu ymlaen llaw

Os Ydynt

Nid oes angen cyfiawnhad pellach o dan ADM.

Os Na

Na

A yw'r adnodd o fewn clustogfa datblygiad sensitif ?

Ie/Ydy

Nid oes angen cyfiawnhad pellach o dan ADM

Na

A gadarnhawyd bod y mwyn yn y lleoliad hwn?

Na

Nid oes angen cyfiawnhad pellach o dan ADM

Do

Archwilio cyn echdynnu e.e.
A oes modd echdynnu'r mwynau o fewn graddfa amser resymol?
A ellir ailddefnyddio'r mwyn ar y safle?
A yw echdynnu'n ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd?

Oes

Mae angen cais cynllunio mwynau i sicrhau bod mwynau'n cael eu hechdynnu ymlaen llaw.

Na

Canllawia

Nid oes angen cyfiawnhad pellach o dan ADM